Grŵp Gweithredol Cyfathrebu
Ebrill 2015

Gwerthusiad Twitter Amgueddfa Cymru, 2014-2015

Penawdau:

Mae ein rhwydwaith Twitter wedi **tyfu 41%** yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyfanswm o **93,494** o ddilynwyr.

Mae cyfrifon y safleoedd yn parhau'n flaenllaw wrth **godi ymwybyddiaeth** o bwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud, gan roi **trosolwg o'n gweithgareddau** drwy **rannu cynnwys a dolenni**, ac mae nifer y dilynwyr yn cynyddu yn gyson.

Mae'r cyfrifon thema yn dal i ragori o ran **creu cynnwys gwreiddiol** wedi'i dargedu at gynulleidfaoedd penodol. Maent yn parhau i yrru traffig yn ddyfnach i mewn i'n gwefan: siop, ffrwd camera byw, casgliadau, nodweddion ac ati. Maent yn darparu cynnwys diddorol i'r cyfrifon mwy ei rannu.

Mae'r cynydd yn y gefnogaeth 'mae cyfrifon **sy'n cefnogi eu cydweithwyr** trwy e.e. ail-drydar yn awgrymu ein bod yn symud oddi wrth y **strwythur 'lloeren'** a gofnodwyd yng ngwerthusiad llynedd - ac yn symud tuag at **bresenoldeb digidol 'cydgysylltiedig'**, yn rhannu dolenni i amrywiaeth ehangach o adnoddau a rhaglenni, **waeth beth yw'r strwythur adrannol neu ddaearyddol**.

Mae **cnewyllyn o ddeiliaid cyfrifon ar draws yr holl safleoedd sy'n gyfrifol am gynnal yr holl rwydwaith** - nhw sy'n gyfrifol am bron i hanner ein cyfrifon, a hebddynt byddai ein gweithgarwch Twitter yn crebachu.

> Mae'r cnewyllyn o ddeiliaid cyfrifon yn **fwy tebygol o fod wedi mynychu hyfforddiant**, 'tweetups', gweithdai cynllunio digidol a phrojectau peilot. Nid eu nifer o ddilynwyr sy'n mesur eu llwyddiant bob amser, ond yn hytrach **safon, gwreiddioldeb a chysondeb eu gwaith**, eu lefel o **gymhwysedd digidol** a'u dylanwad ar eu sffêr ar-lein penodol.

Llwyddiannau

Yn ystod #museumweek 2015:

- bu cynnydd o **460%** mewn ymgysylltu o'i gymharu ag ymgyrch llynedd: mae safon y cynnwys yn gwella ac mae cydweithwyr yn cefnogi'i gilydd drwy rannu cynnwys ac ychwanegu gwahanol safbwyntiau
- Twitter oedd gyrwr traffic mwyaf ein gwefan dros y cyfnod penodedig, **cynnydd o 10% ers llynedd**

- llwyddwyd i **gynnal diddordeb y cyfryngau** ers llynedd: cafodd cynnwys a grëwyd gan y tîm yn Llyfrgell AGC ei ddefnyddio gan gyfryngau prif-ffrwd am yr ail flwyddyn yn olynol
- roedd defnyddwyr yn ymgysylltu â chynnwys heb ei dagio hefyd: mae'r ymgyrch #museumweek yn **cynyddu'n gweithgarwch** ar y rhwydwaith, sy'n ein **gwneud yn fwy gweladwy** – ond nid oedd diddordeb pobl wedi'i gyfyngu i'r thema'r ymgyrch yn unig

Ers llynedd

- mae **80% o ddeiliaid cyfrifon wedi derbyn hyfforddiant** sylfaenol (gwerthusiad ar gael ar gais)
- mae **27 sesiwn hyfforddi a briffio** wedi'u cynnal, wedi'u teilwra i gwrdd ag amcanion a chymwyseddau penodol i safleoedd ac adrannau
- mae **2 project peilot** wedi cychwyn, sy'n canolbwyntio ar ardaloedd strategol megis **rhag-bostio**, **dadansoddeg** a **gwaith digidol cydgysylltiedig**
- mae 3 gweithdy cynllunio digidol wedi'u cynnal, yn edrych ar **anghenion hyfforddi a gosod targedau** o fewn adrannau
- mae fersiynau diweddaraf y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a'r Gofrestr Risg wedi'u cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli (rydym yn aros iddynt ddychwelyd oddi wrth y cyfieithwyr allanol cyn eu cyhoeddi)
- **14 rhybudd o risg** wedi'u datrys gan ddefnyddio sgiliau digidol, cyfreithiol a rhyngbersonol mewnol
- mae deiliaid cyfrifon, megis tîm @Cardiff_Curator, wedi sefydlu cyfrif dadansoddeg ar eu liwt eu hunain, gan gynhyrchu adroddiadau i **fesur llwyddiant a rhannu data** gyda'r Adran Cyfryngau Digidol
- mae **bwletin Twitter mewnol** yn cael ei gylchredeg yn fisol, gyda'r bwriad o rannu arferion da a chynyddu'r amser paratoi a chynllunio cyn ymgyrchoedd. Mae'r platfform ebost trydydd parti yn caniatáu i'r Adran Cyfryngau Digidol gadw golwg ar lefelau ymgysylltu a **phrofi effeithiolrwydd amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu**.

Ateb Heriau

Hyfforddi: 20% o ddeiliaid cyfrifon heb dderbyn hyfforddiant eto. Byddwn yn gwahodd y deiliaid cyfrifon dan sylw i sesiynau arbennig gyda'r bwriad o fod wedi rhoi hyfforddiant sylfaenol i'n holl rwydwaith Twitter. Byddwn yn cysylltu â Rheolwyr Llinell os na fydd trefnu sesiynau yn llwyddiannus neu os fydd presenoldeb yn broblem.
Wal dân: yn ddiweddar mae wal dân fewnol y sefydliad wedi dechrau blocio'r bwletin Twitter i rai defnyddwyr. Mae Cyfryngau Digidol yn gweithio gyda'r adran TG i ddatrys hyn, gan ddefnyddio mesurau dros-dro yn y cyfamser i wneud yn siŵr bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu.
Cyfrifon wedi'i hesgeuluso: mae cyfrifon segur yn arwain defnyddwyr at hen wybodaeth, ac yn gorlenwi chwiliadau. Trwy wneud dim (neu ychydig iawn) o drydar, gall staff wneud difrod i gyflwr cyffredinol rhwydwaith Twitter yr Amgueddfa. Byddwn yn cysylltu â defnyddwyr cyfrifon segur yn y chwarter nesaf er mwyn cydweithio i ganfod ateb addas. Er mwyn hybu defnyddwyr yn gyffredinol i barhau i drydar, bydd Cyfryngau Digidol yn cynnal sawl trydarfod, ac yn rhoi hyfforddiant i helpu staff i gyflawni eu hamcanion ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd Cyfryngau Digidol yn parhau i ddefnyddio profion AB i weld sut y gellir gwneud bwletinau yn fwy effeithiol.
Cynllunio: Bydd Cyfryngau Digidol yn parhau i brofi amrywiaeth o galendrau golygyddol a meddalwedd ategol yn ôl y galw (curadurol, digwyddiadau). Pan fydd holl ddeiliaid cyfrifon wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol a'r profion wedi eu gwerthuso, bydd y modelau hyn ar gael i'r rhwydwaith.
Cymhwysedd Digidol: Gyda chefnogaeth lawn Adnoddau Dynol, bydd Cyfryngau Digidol yn gwerthuso projectau peilot ac yn defnyddio'r canfyddiadau, ynghyd â data o'r rhwydwaith Twitter a'r wefan, at ddibenion hyfforddi mewn ardaloedd allweddol.

Ymwybyddiaeth Risg: bydd Cyfryngau Digidol yn parhau i ddefnyddio'r gofrestr risg er mwyn rhoi cyd-destun i risgiau canfyddedig ac er mwyn rhoi gwybod i ddeiliaid cyfrifon am y risgiau sy'n ein hwynebu fel amgueddfa sy'n trydar.

Atodiad

Isod: 'Holl gyfranwyr' = cyfrifon fu'n trydar cynnwys gwreiddiol, wedi'i dagio yn ystod #museumweek:

@Amgueddfa_Lib
@sf_ystafelloedd
@CardiffCurator
@SquirrelLib
@Photoconswales
@natmuseumart
@Museum_Cardiff
@The_WaterFront
@RomanCaerleon
@LinkinCollWales
@AmgueddfaWlan
@ianthecurator
@AmgueddfaLechi
@archifSFarchive
@RachelConroy_
@AmgueddfaVols
@Professor_Plant
@NatHistConserve

MuseumWeek - All Contributors



MuseumWeek - All Contributors





Argraff/Impressions: faint o weithiau y caiff y trydar ei ddarllen
Ymgysylltu/Engagement: faint o weithiau yr ymgysylltwyd â'r trydar (clicio ar linciau neu broffil, clicio i weld manylion neu lun, dilyn, ail-drydar, serennu, ymateb)
Cynnwys Gwreiddol/Original content: Testun, cyfryngau, linciau a thagiau wedi'u hwchlwytho gan y deiliad cyfri


Detail from "Main Accounts - Engagement Overview (MuseumWeek 2015)"
Original Tweets
Tagged Original Tweets
Engagement Rate (week prev)
Engagement Rate (MuseumW...
0
20
40
60
80
AmgueddfaLechi
AmgueddfaWlan
BigPitMuseum
Museum_Cardiff
RomanCaerleon
StFagans_Museum
The_WaterFront
AmgueddfaCymru